



## Tasg Arbennig – Ein Hawliau

Cynllun gwrs / gweithgaredd i gyflwyno plant yn y Cyfnod Sylfaen i Hawliau Plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru (ComPlantCymru).

### Adnoddau

- Dau gerdyn A4 gydag EISIAU ar un ohonyn nhw ac ANGEN ar y llall
- [Ffilm i ddangos pwy yw Sally](#)
- [Poster hawliau plant](#)

### Amcanion Dysgu

- Bod y disgyblion yn ystyried beth yw hawliau plant o dan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Bod disgyblion yn ystyried pa hawliau sydd ganddyn nhw (anghenion sydd ganddyn nhw)
- Bod y disgyblion yn deall pwy yw Sally Holland

### Geirfa Allweddol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau plant.

Hawliau: "Pethau rydych chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Comisiynydd Plant Cymru: "Oedolyn yng Nghymru yw Sally Holland, a'i gwaith hi yw helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

### Negeseuon Allweddol

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y pethau sydd eu hangen amyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Dylai pob oedolyn wneud yn siŵr eu bod nhw'n cefnogi plant i gael eu hawliau.

Mae Sally Holland, y Comisiynydd Plant, yn sefyll i fyny dros holl blant Cymru

### Cyflwyniad: Beth yw hawliau plant?

- Esboniwch wrth y disgyblion eich bod chi'n mynd i drafod pethau maen nhw eisiau a phethau maen nhw angen a'ch bod chi'n mynd i wneud gweithgaredd i weld ydyn nhw'n gwybod y gwahaniaeth.
- Rhowch ddwy ddalen A4 ar waliau gwahanol, un yn dweud EISIAU ac un yn dweud ANGEN. Esboniwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n darllen rhywbeth yn uchel, a bod rhaid iddyn nhw fynd i sefyll nesaf at y cerdyn i roi eu hateb – ydy hwn yn rhywbeth rydych chi ei eisiau neu ei angen?
- Arweiniwch y gweithgaredd, gan ddewis 3-4 eitem o'r rhestr 'angen' a 3-4 o'r rhestr 'eisiau' – gallwch chi ychwanegu eich syniadau eich hunain ar gyfer 'eisiau' hefyd.

#### Angen:

- Rhywun i ofalu amdanoch chi
- Bwyd iach i'w fwyta
- Rhywun i'ch cadw chi'n ddiogel
- Rhywun i fod yn ffrind i chi
- Rhywle i chwarae
- Cartref i fyw ynddo
- Rhywun i wrando arnoch chi

#### Eisiau:

- Siocled i frecwast bob bore
- Tŷ sydd â phwll nofio
- iPad
- Anifail anwes
- Anrhegion pen-blwydd
- Teledu
- Esboniwch ein bod ni eisiau rhai pethau, a bod angen rhai pethau arnon ni. Yr enw ar y pethau rydyn ni eu hangen er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yw HAWLIAU – [Dangoswch y poster CCUHP](#) ac esboniwch fod gan BOB PLENTYN 0-18 oed ar draws y byd bob un o'r 42 hawl yma (yr enw arnyn nhw yw Erthyglau).

## PRIF ELFEN: Pwy sy'n eich cadw chi'n ddiogel a phwy sy'n gallu gwrandao amoch chi?

- Gwahoddwch y disgyblion i rannu eu syniadau ynghylch pethau eraill sy'n gallu eu helpu i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Os yw hynny'n briodol ac yn addas i'w hoedran, cysylltwch hynny â'u hawliau e.e. cysylltu ag Erthygl 19 (yr hawl i fod yn ddiogel), cysylltu bwyd iach neu gymorth meddygol ag Erthygl 24 (yr hawl i gael bwyd da a dŵr glân ac i weld meddyg os byddwch chi'n sâl), cysylltu athro, ysgol neu ystafell ddosbarth ag Erthygl 28 (yr hawl i gael addysg).
- Esboniwch fod rhaid i oedolion wybod am hawliau plant hefyd (CCUHP), gan mai eu gwaith nhw yw sicrhau bod plant yn cael y pethau maen nhw eu hangen (eu hawliau) i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel, ac mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â hynny.
- Rhowch ddarn glân o bapur i'r disgyblion a gofyn iddyn nhw dynnu llinell o amgylch eu llaw. Yna gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio pob un o'r bysedd i dynnu llun neu ysgrifennu enw rhywun maen nhw'n gallu siarad â nhw os na fyddan nhw'n teimlo'n hapus, yn iach neu'n ddiogel.
- Gofynnwch i'r disgyblion rannu'r syniadau hyn, e.e. ffrindiau, teulu, athrawon, yr heddlu. Esboniwch y dylai pob plentyn fedru siarad â rhywun os na fyddan nhw'n teimlo'n hapus. Esboniwch fod rhywun arall sy'n gallu rhoi help llaw – Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru.
- [Dangoswch y clip](#) lle mae Sally'n esbonio sut mae hi'n gallu cefnogi plant yn y Cyfnod Sylfaen

## Datblygu

- Gofynnwch i'r disgyblion "Mwy o bwy sydd yn y dosbarth yma – oedolion neu blant?" Yr ateb fydd plant bob amser, felly gofynnwch, "Pwy arall sy'n gorfod gwneud yn siŵr eich bod chi'n cadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y dosbarth yma?" Anogwch y plant i gyfeirio atynt eu hunain ac arweiniwch drafodaeth i gysylltu hyn â rheolau'r dosbarth (e.e. dwylo caredig a thraed caredig, gofalu am eich gilydd, rhoi gwybod i ni os bydd dy ffrind yn drist.)

## Sesiwn Lawn: Gweiddi am eich hawliau!

- Ewch ati i wirio ac ategu dealltwriaeth y disgyblion o'r amcanion a'r negeseuon allweddol

- Defnyddiwch y cyfle yma i gyflwyno eich Llysgenhadon Gwych i'r dosbarth!

AWGRYM GWYCH: Dathlwch eich gwaith trwy drydar ar @complantcymru #EinHawliau. Byddwch chi hefyd yn cael hyd i syniadau eraill gwych o ran sut mae ysgolion eraill yng Nghymru yn dysgu ac yn addysgu am hawliau drwy ddefnyddio ein hashnod twitter #EinHawliau

### Syniadau Estyn:

- Mae llyfr Iliwio Pob Plentyn/All About Me yn adnodd gwych sydd ar gael am ddim i'r Cyfnod Sylfaen. Cewch hyd i hwn ac adnoddau eraill di-dâl gan Lywodraeth Cymru [yma](#)
- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried a yw'r holl blant yn eu hysgol / yng Nghymru / yn y byd yn cael beth sydd ei angen arny'n nhw i dyfu i fyny'n iach, yn hapus ac yn ddiogel? Gallai hyn arwain at drafodaethau sy'n rhoi cyfle iddyn nhw archwilio hawliau fel cysyniad.